# Arolygiaeth Carchardai EF
# Cynllun Busnes 2025–26

Ebrill 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad ...... 3

Adran 1 Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud ... 5

Adran 2 Ein cynllun busnes ar gyfer 2025-26 ... 6

Adfran 3 Ein hadnoddau ... 7

Adran 4 Arolygiaeth annibynnol ... 8

Adran 5 Arolygiaeth ddylanwadol ... 12

Adran 6 Arolygiaeth atebol ... 15

Adran 7 Arolygiaeth abl ... 17

Adran 8 Arolygiaeth gydweithredol ... 20

Atodiad I Rhestr o amcanion strategol ... 23

# Cyflwyniad

Mae’n parhau i fod yn amser heriol iawn i bawb sy’n byw ac yn gweithio mewn carchardai. Rydym yn cwrdd â nifer o arweinwyr a staff rheng flaen rhagorol yn ystod ein gwaith, ac rwyf dal yn ddiolchgar iawn am eu proffesiynoldeb wrth ymgysylltu â’r arolygiaeth er gwaethaf y pwysau maen nhw’n eu hwynebu.

Mae arolygu annibynnol hyd yn oed yn bwysicach pan fydd pethau’n anodd, a’n blaenoriaeth gyntaf yw cyflwyno rhaglen sy’n galluogi’r cyhoedd i gael cip olwg i’r byd cudd o gadw unigolion yn y ddalfa, yn ogystal â sbarduno gwelliannau drwy roi blaenoriaethau clir i sefydliadau ar gyfer gwella. Yn y flwyddyn i ddod, rydym yn disgwyl ymweld â mwy na 70 o sefydliadau fel rhan o’n rhaglen arolygu graidd.

Un o’r prif ffactorau sy’n sbarduno gwelliant mewn unrhyw sefydliad yw arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adolygu ein dull o arolygu’r maes hollbwysig hwn, gan ddiweddaru ein disgwyliadau a darparu hyfforddiant gloywi i lywodraethwyr ar sut i ddefnyddio’r adroddiad hunanasesu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni yn y flwyddyn i ddod ac rwyf yn falch y byddwn, am y tro cyntaf, yn gweithio gyda llywodraethwyr sydd newydd eu penodi i ddarparu sesiynau gwybodaeth pwrpasol i’w helpu i ddeall ein disgwyliadau, rôl ein hadroddiad hunanasesu a phwysigrwydd defnyddio data i sbarduno gwelliant.

Rydym yn ymwybodol iawn o’r straen ychwanegol y mae llawer yn y gwasanaeth carchardai’n gweithio oddi tani, ac y gallai’r arolygiad ychwanegu at y pwysau hynny. Yn ogystal â gwneud yn siŵr bod y sesiynau cynefino yn rhoi cyfle i lywodraethwyr newydd ofyn cwestiynau neu godi pryderon am y broses arolygu, byddwn hefyd yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer carfan o’n staff er mwyn i ni allu adnabod ac ymateb yn briodol i arwyddion o drallod, ar adeg arolygu ac i gefnogi ein staff ein hunain.

Rwyf yn parhau i boeni’n fawr am weithgarwch pwrpasol, gyda llawer o garcharorion yn treulio oriau hir yn eu celloedd heb ddim i roi gobaith iddynt am y dyfodol na’u paratoi i gael gwaith a’i gadw ar ôl cael eu rhyddhau. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cynnal adolygiad thematig manwl o waith a hyfforddiant mewn carchardai. Byddwn hefyd yn darparu adolygiad thematig o gefnogaeth i garcharorion i gynnal cysylltiadau teuluol. Mae ein hadroddiadau diweddar ar fenywod yn ymdopi yn y carchar a chymell ymddygiad cadarnhaol wedi dangos bod cynnal y cysylltiadau hyn yn hanfodol i sicrhau bod carcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cynhyrchiol yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

Yn erbyn y cefndir hwn o weithgarwch pwrpasol gwael iawn, rydym wedi nodi pa mor gyffredin yw cyffuriau anghyfreithlon, sy’n fygythiad sylweddol i sefydlogrwydd a diogelwch llawer o garchardai. Yn 2024–25, fe wnaethom ddechrau gweithio i adolygu’r ffordd rydym yn arolygu ac yn adrodd ar y maes hwn i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud hynny mor effeithiol â phosibl. Yn 2025–26, byddwn yn parhau â hyn, ac rwyf yn falch o nodi bod y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder hefyd yn rhoi sylw i’r mater hwn.

Mae ein harchwiliadau diweddar o ganolfannau symud ymaith wedi peri pryder o ran dirywiad mewn amodau mewn sawl safle. Rwyf yn falch o ddweud ein bod wedi cryfhau ein gallu i graffu ar amodau a thriniaethau yn y maes hwn a byddwn yn dechrau cynnal adolygiadau annibynnol o gynnydd yn yr ystad fewnfudo yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2024–25.

Yn olaf, fel corff cyhoeddus, rwyf yn ymwybodol iawn o gyfrifoldeb yr arolygiaeth i gyflawni ein cyfrifoldebau mor effeithlon â phosibl, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywodraethu'n dda a bod modd eu cyfiawnhau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal adolygiad o'n gweithdrefnau llywodraethu. Yn 2025–26, byddwn yn gweithredu nifer o welliannau i gryfhau ein trefniadau llywodraethu i sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan hefyd sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

**Charlie Taylor**
**Prif Arolygydd Carchardai EF**

# Section 1 Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

## Ein pwrpas

Rydym yn arolygiaeth annibynnol dan arweiniad Prif Arolygydd Carchardai EM. Rydym yn craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a'r rheini sy'n y ddalfa, a'r ffordd maen nhw'n cael eu trin, ac yn adrodd ar ein canfyddiadau.

Rydym yn helpu i wneud yn siŵr bod unigolion yn cael eu cadw mewn ffordd ddynol, sy'n ddiogel ac yn barchus, ac yn helpu i baratoi pobl ar gyfer cael eu rhyddhau. Rydym yn gwneud hynny drwy gynnal arolygiadau annibynnol o garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a llysoedd yng Nghymru a Lloegr a lleoliadau cadw mewnfudwyr ledled y DU.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau i roi gwybod i bobl am ein canfyddiadau ac yn dal y llywodraeth, a'r rheini sy'n rhedeg lleoliadau cadw, i gyfrif. Rydym hefyd yn nodi ac yn rhannu enghreifftiau o arferion cadarnhaol i gefnogi arweinwyr i ddysgu gan sefydliadau tebyg eraill.

## Ble a sut rydym yn arolygu

Mae'r lleoliadau rydym yn eu harolygu, a'r ffordd rydym yn cynnal ein gwaith, wedi'u nodi'n fanylach yn ein *Fframwaith Arolygu* ac yn ein Disgwyliadau, sy'n nodi'r meini prawf rydym yn eu defnyddio i arolygu carchardai a mathau eraill o leoliadau cadw. Maent yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol ac fe'u defnyddir i archwilio pob agwedd ar fywyd yn y ddalfa.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Arolygiaeth, ewch i'n gwefan: hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk

# Section 2    Ein cynllun busnes ar gyfer 2025-26

Mae'r cynllun busnes hwn yn disgrifio'r gwaith sydd ar y gweill gennym ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun wedi ei osod yn erbyn y prif risgiau lefel uchel sy'n gysylltiedig â'n gwaith, yr adnoddau sydd ar gael a'r tybiaethau cyllido.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r arolygiaeth yn ymwneud â chyflawni ein rhaglen arolygu graidd a chasglu a dadansoddi gwybodaeth sy'n helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r gwaith o gyflawni'r holl weithgarwch a nodir yn y cynllun hwn yn cael ei fonitro a'i graffu'n fewnol gan ein strwythurau llywodraethu presennol. Bydd diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y cynllun yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a'u rhannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ein hadran noddi.

Dyma ein prif fforymau llywodraethu:

**Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol:** Mae'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cael ei gadeirio gan ein Prif Arolygydd. Mae ein Bwrdd yn adolygu metrigau perfformiad allweddol a'n cofrestr risg gorfforaethol, yn cymeradwyo rhaglenni gwaith newydd ar lefel strategol ac yn craffu ar ein perfformiad ariannol.

**Y Bwrdd Cyflawni:** Mae Bwrdd Cyflawni yn cwrdd bob mis ac mae'n cael ei gadeirio gan ein Dirprwy Brif Arolygydd. Mae ein Bwrdd Cyflawni yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein rhaglen arolygu yn effeithiol.

Mae ein rhaglen arolygu ar gyfer 2025-26, a'r fframwaith arolygu y byddwn yn ei ddefnyddio, yn destun ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a.28. Mae'r ymatebion, yr ydym yn ddiolchgar amdanynt, yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn ein cynlluniau busnes bob blwyddyn.

Yn y cynllun hwn, disgrifir gwaith yr Arolygiaeth dan bum thema, sy'n deillio o'n gwerthoedd sefydliadol:

1. Arolygiaeth annibynnol
2. Arolygiaeth ddylanwadol
3. Arolygiaeth atebol
4. Arolygiaeth abl
5. Arolygiaeth gydweithredol

# Section 3 Ein hadnoddau

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn rhagweld y bydd ein cyllideb ar gyfer 2025–26 fel a ganlyn (dadansoddiad dros dro i'w ddiweddaru pan fydd dosrannu cyllid ar gyfer awdurdodaethau eraill a chyllideb ffurfiol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u cwblhau):

| | |
|---|---|
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (cyllid craidd) | £5,365,000 |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – cadw plant yn y ddalfa (gall hyn newid) | £135,651 |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – canolfannau hyfforddi diogel | £28,908 |
| Y Swyddfa Gartref - dalfa mewnfudwyr | £454,339 |
| Costau arolygu awdurdodaethau eraill (gallai hyn newid) | £75,000 |
| **Cyfanswm** | **£6,058,898** |

Ar ben hynny, drwy wahoddiad, mae Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi yn cynnal arolygiadau o gyfleusterau dalfa a chadw milwrol, carchardai yng Ngogledd Iwerddon (ar ran Arolygu Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon), carchardai ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r Deyrnas Unedig. Codir tâl adennill costau am y rhain.

Ym mis Mawrth 2024, roedd 83 o staff a swyddogion cyswllt sy'n derbyn ffi (c70 FTE) yn rhan o'r Arolygiaeth. Daw ein staff a'n swyddogion cyswllt o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol. Er bod gan lawer brofiad o weithio mewn carchardai, mae gan eraill gefndiroedd ym maes gwaith cymdeithasol, gwasanaethau prawf, y gyfraith, cyfiawnder ieuenctid, gofal iechyd a thriniaeth cyffuriau, ymchwil cymdeithasol a pholisi. Mae gennym swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fach sy'n cynnwys cymorth cyllid, Adnoddau Dynol ac arolygu, cyfathrebu, cyhoeddiadau, polisi a chydlynu Mecanweithiau Atal Cenedlaethol.

## Section 4 Arolygiaeth annibynnol

Byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol, sef adrodd yn gywir, yn ddiduedd ac yn gyhoeddus ynghylch y driniaeth a'r amodau ar gyfer y rheini yn y ddalfa. Bydd ein dull seiliedig ar werthoedd, ein disgwyliadau annibynnol a'n methodoleg yn ein cefnogi i sicrhau bod safonau hawliau dynol yn cael eu cynnal a bod canlyniadau i garcharorion yn gwella ar draws y gwahanol leoliadau carcharu rydym yn eu harolygu.

### Amcan 1: Byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol sy'n cwmpasu pob maes o'n cyfrifoldeb.

#### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

Yn 2025–26, byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol ar gyfer mwy na 70 o sefydliadau, ac rydym yn disgwyl i hyn gynnwys y canlynol.[1]

| | Sefydliadau sy'n dal oedolion | Sefydliadau sy'n dal plant | Cadw mewnfudwyr |
|---|---|---|---|
| Arolygiadau dirybudd | 40<br><br>1 tu allan i'r awdurdodaeth | 1 | 7 |
| Adolygiadau annibynnol o gynnydd (IRP) | 15-17<br><br>1 tu allan i'r awdurdodaeth | 5 | 2 |
| Ymweliadau sicrwydd | 0 | 1 | 0 |

Ar gyfer pob arolygiad a ddarparwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad llawn o fewn 14 wythnos ar gyfer arolygiadau llawn neu bum wythnos ar gyfer adolygiadau annibynnol o gynnydd.

#### Goruchwylio'r rhaglen arolygu

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cynnydd y rhaglen | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes Tîm Nawdd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Chwarterol<br><br>Dwywaith y flwyddyn |

[1] Sylwch fod ein rhaglen arolygu'n seiliedig ar asesiad risg deinamig. Mae hyn yn golygu y gall rhywfaint o newid i'n rhaglen arfaethedig ddigwydd yn ystod y flwyddyn sy'n effeithio ar gyfanswm y gwahanol fathau o arolygiadau a gyflawnir.

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen | Y Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Prydlondeb adroddiadau | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

## Amcan 2: Byddwn yn datblygu ac yn adrodd ar raglen o arolygiadau thematig sy’n gwella canlyniadau i’r rheini yn y ddalfa.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar arolygiad thematig o waith a hyfforddiant mewn carchardai i oedolion.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y berthynas rhwng plant yn y ddalfa a’r staff sy’n gofalu amdanynt.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar arolygiad thematig o waith i gynnal cysylltiadau teuluol tra bydd pobl yn y carchar.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo canfyddiadau ein hadolygiad thematig, sef Amser i Ofalu (*Time to care*) ar helpu menywod i ymdopi yn y carchar.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo canfyddiadau ein hadolygiad thematig o geisiadau mewn carchardai, sef Haws dweud na gwneud (*Easier said than done*).
- Bydd ein Bwrdd Thematig yn adolygu ac yn datblygu cynigion ar gyfer meysydd newydd o arolygiadau thematig drwy gydol y flwyddyn ar sail gwybodaeth sy’n dod i’r amlwg neu feysydd risg.

### Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno’r rhaglen | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen | Y Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Prydlondeb adroddiadau | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

## Amcan 3: Byddwn yn parhau i sbarduno gwelliant yn arweinyddiaeth y sefydliadau rydym yn eu harolygu.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Y llynedd, fe wnaethom ddiweddaru ein disgwyliadau o ran Arweinyddiaeth yn dilyn adolygiad o’r ffordd rydym yn arolygu. Arweiniodd hyn at newidiadau i offer fel yr adroddiad hunanasesu y mae llywodraethwyr yn ei gwblhau. Yn 2025–26, byddwn yn parhau i ymgorffori’r newidiadau hyn ar draws pob

lleoliad i dynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol arweinyddiaeth gref o ran sbarduno gwelliant.

- Byddwn yn cynllunio ac yn cyflwyno tair sesiwn wybodaeth ar gyfer llywodraethwyr newydd. Bydd y rhain yn ymdrin â'n disgwyliadau, yr adroddiad hunanasesu a'r defnydd o ddata i ysgogi gwelliant. Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i lywodraethwyr newydd ofyn cwestiynau neu godi pryderon am y broses arolygu. Bydd y sesiynau'n cael eu rhannu ar draws y flwyddyn.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu digwyddiadau cynefino newydd | Y Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Ymgorffori disgwyliadau arweinyddiaeth wedi'u diweddaru | Bwrdd Cyflawni<br>Cyfarfodydd y Fforwm Polisi | Bob mis<br>Chwarterol |

## Amcan 4: Byddwn yn cryfhau ein gallu i graffu ar amodau ac ymateb i risg uwch mewn perthynas â chadw mewnfudwyr.

- Yn 2024–25 fe wnaethom dreialu defnyddio adolygiadau annibynnol o gynnydd mewn canolfannau symud ymaith.
- Yn 2025–26, rydym yn disgwyl darparu dau adolygiad annibynnol o gynnydd lle rydym yn credu y byddai adolygiad o'r fath yn helpu i annog cynnydd o ran gwella amodau a chanlyniadau i garcharorion.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno'r rhaglen | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen | Y Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Prydlondeb adroddiadau | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

## Amcan 5: Byddwn yn parhau i ddiogelu'r rheini yn y ddalfa.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn parhau i ddiogelu'r rheini sy'n cael eu cadw yn y ddalfa rhag sancsiynau neu gosbau sy'n deillio o gyfathrebu ag Arolygiaeth Carchardai EF, neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr Arolygiaeth, a hynny'n unol â'n polisi sancsiynau.

- Byddwn yn parhau i weithredu ar unwaith os byddwn yn canfod pryderon diogelu, p’un ai ydynt yn dod i law yn ystod arolygiad neu drwy ohebiaeth, a hynny’n unol â phrotocolau diogelu Arolygiaeth Carchardai EF.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Adolygu’r llyfr cofnod o bryderon diogelu neu sancsiynau, a’r camau a gymerwyd | Y Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| | Y Tîm Ysgrifenyddol | Bob mis |
| | Cyfarfod diogelu | Chwarterol |
| | Cyfarfod sancsiynau | Chwarterol |

# Section 5 Arolygiaeth ddylanwadol

Byddwn yn arolygu ac yn adrodd mewn ffordd agored, gan herio'r rhai sy'n gyfrifol am y sefydliadau rydym yn eu harolygu mewn modd adeiladol a sensitif. Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth o'n harolygiadau yn sail i bolisi ac ymarfer ac yn cyfrannu at wella canlyniadau i'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau ar gael i amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

## Amcan 6: Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n harbenigedd canolog ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y rheini yn y ddalfa.

**Yr hyn y byddwn ni'n ei gyflawni**

- Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2024–25 sy'n dod â dadansoddiad o'r arolwg a chanfyddiadau'r arolygiad at ei gilydd ar draws y flwyddyn adrodd. Bydd ein fforymau polisi yn parhau i gyfarfod bob chwarter i adolygu gwybodaeth yn erbyn y pedwar prawf carchar iach: Diogelwch, Parch, Gweithgarwch Pwrpasol a Pharatoi ar gyfer Rhyddhau.
- Byddwn yn ymateb i ymgynghoriadau polisi cyhoeddus perthnasol neu geisiadau am dystiolaeth gan bwyllgorau seneddol gan ddefnyddio ein sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth unigryw.
- Byddwn yn cynnal diwrnodau datblygu chwarterol ar gyfer yr holl staff i rannu gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod hyn yn bwydo'n barhaus i arferion arolygu gwell.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a rhannu gwybodaeth | Fforymau Polisi | Chwarterol |
| Goruchwylio diwrnodau datblygu | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Datblygu adroddiad blynyddol | Fforymau Polisi<br><br>Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol<br><br>Chwarterol |

## Amcan 7: Byddwn yn ymestyn cyrhaeddiad ein hadroddiadau i sbarduno mwy o graffu a newid cadarnhaol.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Yn 2024–25, fe wnaethom lansio gwefan newydd. Byddwn yn parhau i wella'r wefan, gan ddysgu o'r adborth o'n harolwg rhanddeiliaid ar gyfer 2024–25, adborth ehangach gan ddefnyddwyr a dadansoddeg perfformiad fel y bo'n briodol.
- Byddwn yn parhau i feithrin perthynas effeithiol â gohebwyr a darparwyr allweddol i sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau'n cael sylw eang a'u bod yn cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Byddwn yn treialu'r defnydd o bodlediadau i hyrwyddo canfyddiadau ein harolygiadau i ddeall a yw hon yn sianel effeithiol i'r arolygiaeth. Bydd y podlediad yn cael ei gynhyrchu'n fewnol gan ein tîm cyfathrebu.
- Byddwn hefyd yn treialu'r defnydd o Instagram i'n helpu i ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd gyda chynnwys sy'n briodol ar gyfer y platfform hwnnw.
- Byddwn yn gweithio gyda newyddiadurwr annibynnol i gynhyrchu rhaglen ddogfen radio yn dilyn un o'n harchwiliadau yn y carchar.

### Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Datblygu a threialu Podlediad ac Instagram | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| | Cyfarfod cynllunio strategol ar gyfer cyfathrebu | Chwarterol |
| Sylw yn y cyfryngau | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Gwelliannau i'r wefan | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

## Amcan 8: Byddwn yn nodi ac yn rhannu arferion cadarnhaol er mwyn helpu i wella canlyniadau.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Yn 2024–25 fe wnaethom gyhoeddi adolygiad thematig a oedd yn canolbwyntio ar garchardai sy'n perfformio'n well na rhai o'u cymheiriaid, a hynny er mwyn helpu arweinwyr i nodi lle gallent wneud gwelliannau i'w sefydliadau eu hunain. Gwnaethom hefyd gyhoeddi rhestr lawn o'r holl arferion cadarnhaol nodedig ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24.
- Byddwn yn parhau i rannu arferion cadarnhaol nodedig ar ein gwefan a thrwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac i hyrwyddo adroddiadau cadarnhaol am arolygiadau mor eang â phosibl.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Trafod ymarfer cadarnhaol yn ôl ardal carchar iach | Fforymau Polisi<br>Y Bwrdd Cyflawni | Chwarterol<br>Bob mis |

# Section 6 Arolygiaeth atebol

Byddwn yn rheoli ein hadnoddau'n effeithlon ac yn ymgymryd â'n gwaith mewn modd proffesiynol. Byddwn yn rhoi cyfrif am ein perfformiad ac yn parhau i ddangos gwerth am arian.

## Amcan 9: Byddwn yn dangos dulliau effeithiol o reoli risg a gwneud penderfyniadau drwy lywodraethu corfforaethol cadarn.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Yn 2024–25, fe wnaethom adolygu ein prosesau llywodraethu. Yn 2025–26, bydd ein Hysgrifenyddiaeth yn rhoi gwelliannau ar waith i wneud yn siŵr bod yr arolygiaeth yn cael ei llywodraethu'n effeithiol ac yn gallu canfod a rheoli risg yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru'r cylch gorchwyl ar gyfer yr holl fyrddau a phwyllgorau a chreu fframwaith llywodraethu cyffredinol. Byddwn hefyd yn creu un cofnod gweithredu ar draws pob bwrdd a phwyllgor.
- Byddwn yn cynnal pedwar cyfarfod chwarterol y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth y Prif Arolygydd, i oruchwylio cyfeiriad strategol gwaith yr arolygiaeth a'r gofrestr risg gorfforaethol, ac i graffu ar ein cyllid a'i herio.
- Byddwn yn cynnal Byrddau Cyflawni misol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Arolygydd, i oruchwylio'r gwaith o weithredu ein rhaglen arolygu weithredol yn effeithiol.
- Bydd ein Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu polisïau, digwyddiadau a chamau gweithredu allweddol.
- Bydd ein Pwyllgor Dysgu a Datblygu yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Dysgu a Datblygu a nodi lle mae angen gweithredu i gefnogi gwelliant parhaus.
- Bydd ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac i fonitro metrigau allweddol yn y maes hwn.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Gweithredu newidiadau'r adolygiad llywodraethu | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dwywaith y flwyddyn |
| Sicrwydd parhaus o gydymffurfio â phrosesau | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| llywodraethu allweddol | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Cyfarfodydd uwch-noddwyr Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Arfarniad blynyddol y Prif Arolygydd | Dwywaith y flwyddyn<br><br>Chwarterol<br><br>Bob blwyddyn |

## Amcan 10: Byddwn yn dangos rheolaeth ariannol gadarn ac yn darparu gwerth am arian.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglen arolygu a'r holl weithgarwch arall o fewn y gyllideb.
- Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar reolaeth ariannol, gan adrodd ar amrywiadau i'r gyllideb bob mis yn ogystal â chynnal ymarferion diweddaru'r rhagolygon ariannol presennol bob chwarter.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad a chyfrifon blynyddol sy'n cael eu cyflwyno yn y senedd ac yn rhoi cyfrif llawn o'n hadnoddau a'n gweithgareddau.

**Y ffordd y byddwn yn adrodd ar gynnydd ac yn ei fonitro**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Adroddiadau cyllid misol | Cyfarfodydd cyllid misol<br><br>Adroddiadau misol ar amrywiant cyllid i dîm Partneriaeth Busnes Cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Bob mis<br><br>Bob mis |
| Diweddariadau chwarterol i'r gyllideb a'r rhagolygon ariannol | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Cyfarfodydd noddwyr uwch Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Arfarniad blynyddol y Prif Arolygydd | Chwarterol<br><br>Dwywaith y flwyddyn<br><br>Chwarterol<br><br>Bob blwyddyn |
| Adroddiad blynyddol a chyfrifon | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Bob blwyddyn |

# Section 7 Arolygiaeth abl

Byddwn yn sefydliad amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar werthoedd ac sydd wedi ymrwymo i arfogi ein staff â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni ein pwrpas. Fe wnawn ni ymdrechu i wella amrywiaeth ein gweithlu. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon i wella ansawdd ein harolygiadau a gwella'r ffordd y caiff ceiswyr lloches eu trin a'r amodau ar eu cyfer.

## Amcan 11: Byddwn yn sicrhau bod gan yr arolygiaeth weithlu sy'n meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd priodol.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Byddwn yn cytuno ar Gynllun Gweithredu Dysgu a Datblygu wedi'i ddiweddaru, a bydd y broses o'i roi ar waith yn cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Dysgu a Datblygu, gan adrodd i'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.
- Byddwn yn cwblhau hyfforddiant ar gyfer carfan o staff fel swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl i gefnogi eu gallu i adnabod ac ymateb i arwyddion o drallod meddwl ar adeg eu harolygu ac ymysg ein staff ein hunain.
- Byddwn yn parhau i fynnu bod pob aelod staff a swyddogion cyswllt sy'n derbyn ffi sy'n gweithio ar ein rhan yn cwblhau'r holl gyrsiau hyfforddi gorfodol. Byddwn yn monitro'r broses o gwblhau'r cyrsiau er mwyn sicrhau cydymffurfiad.
- Byddwn yn defnyddio cyfarfodydd chwarterol y fforwm polisi a diwrnodau datblygu staff chwarterol i rannu gwybodaeth er mwyn llywio a gwella ein harferion arolygu'n barhaus, gan gynnwys drwy wahodd safbwyntiau allanol.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo adolygiadau gan gymheiriaid, cysgodi, mentora a chyfleoedd dysgu a datblygu eraill.

### Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cynllun Gweithredu Dysgu a Datblygu wedi'i ddiweddaru | Pwyllgor Dysgu a Datblygu<br>Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Cwblhau hyfforddiant | Y Bwrdd Cyflawni<br><br>Pwyllgor Dysgu a Datblygu | Bob mis<br><br>Dwywaith y flwyddyn |
| Monitro anghenion dysgu a datblygu a dull gweithredu corfforaethol | Panel adolygu prosesau hyfforddi<br><br>Pwyllgor Dysgu a Datblygu | Bob mis<br><br>Chwarterol |

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cyfleoedd datblygu ar ffurf cwrs undydd | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |

## Amcan 12: Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau’n effeithiol.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn ail-lansio ein grŵp cefnogi staff, sy’n darparu cymorth gan gymheiriaid i unrhyw aelod o staff sydd ei angen, er enghraifft ar ôl bod yn dyst i ddigwyddiad trallodus yn ystod yr arolygiad.
- Byddwn yn recriwtio dau aelod newydd i’r grŵp cefnogi staff, yn darparu hyfforddiant pwrpasol i’w cefnogi yn eu rôl ac yna’n eu dyrchafu i fod yn aelodau o staff ochr yn ochr â ffynonellau cymorth eraill.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein mewnrwyd staff i roi gwybod iddynt am faterion allweddol a allai effeithio ar eu gwaith neu eu lles.
- Bydd gan yr holl staff amcanion a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd â’u rheolwr i sicrhau eu bod yn deall eu blaenoriaethau a’r ffordd y maen nhw’n cysylltu â blaenoriaethau ehangach yr arolygiaeth, yn ogystal â chael cefnogaeth i’w cyflawni.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Nifer a natur y galwadau i’r grŵp cefnogi staff | Y Grŵp Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |
| Arolwg pobl y gwasanaeth sifil | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Bob mis<br><br>Dwywaith y flwyddyn |
| Cyfarfodydd rheoli llinell | Holl staff | O leiaf unwaith y mis |

## Amcan 13: Byddwn yn diogelu ein staff drwy gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu hiechyd a’u diogelwch yn y gwaith.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn adolygu’r holl bolisïau perthnasol i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Gweithwyr i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Byddwn yn siarad â sefydliadau eraill sydd â staff mewn amgylcheddau risg uchel, gan gynnwys carchardai, i helpu i lywio ein dull gweithredu.

- Byddwn yn parhau i adolygu ein canllawiau iechyd a diogelwch a’n polisïau allweddol ar gyfer staff i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, iechyd y cyhoedd a chyngor ehangach y llywodraeth.

- Byddwn yn cadw cofnod cywir o unrhyw ddigwyddiadau neu achosion a fu bron a digwydd i'w hadolygu yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch, ac yn rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith i leihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Diweddaru polisïau | Y Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |
| Adolygu digwyddiadau ac achosion a fu bron â digwydd | Y Pwyllgor Tân, Iechyd a Diogelwch | Dwywaith y flwyddyn |

## Amcan 14: Byddwn yn ymgorffori ein hymrwymiad i driniaeth deg a chynhwysiant ar draws yr arolygiaeth.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn cytuno ar Gynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth newydd, gan gynnwys dangosfwrdd newydd i hwyluso'r gwaith o fonitro ac adrodd ar fetrigau allweddol, yn ogystal â phwyntiau gweithredu penodol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu a'i gytuno gan ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Arolygydd ac sy'n bwydo i'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.
- Byddwn yn parhau i fonitro a thrafod materion allweddol sy'n ymwneud â thriniaeth deg a chynhwysiant yng nghyfarfodydd chwarterol ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Byddwn yn dechrau adolygiad o'n disgwyliadau o ran triniaeth deg a chynhwysiant yn ein fframwaith arolygu, a fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2026. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r fframwaith bob dwy flynedd.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cynllun wedi'i ddiweddaru | Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol<br><br>Chwarterol |

# Section 8 Arolygiaeth gydweithredol

Byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaeth statudol i gydweithio â’n partneriaid cyfiawnder troseddol, yn ogystal â phartneriaid eraill sy'n rhanddeiliaid allweddol, i hyrwyddo amodau ar gyfer ceiswyr lloches yn well. Fel aelod o’r Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM), byddwn yn gweithio gydag Ysgrifenyddiaeth NPM (sydd wedi ei lleoli yng Ngharchardai Ei Fawrhydi) a chydag aelodau NPM i gynyddu OPCAT (Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i’r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill) a chydlynu gweithio ar y cyd.

## Amcan 15: Byddwn yn cynnal perthynas waith dda gyda swyddogaethau ac atebolrwydd clir gyda’n partneriaid arolygu.

### Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26

- Byddwn yn cyhoeddi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi’u diweddaru sy’n nodi’r ffyrdd y byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a’r Swyddfa Gartref i gyflawni ein rhaglen arolygu.
- Bydd ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda’r Swyddfa Gartref yn cyfuno dau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer ein gwaith ar gyfleusterau a reolir gan Orfodaeth Mewnfudo a Llu’r Ffiniau. Bydd un Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth felly’n cael ei greu fel ei bod yn haws i randdeiliaid weld mewn un lle y rolau a’r cyfrifoldebau ar bob parti wrth gynnal arolygiadau o leoliadau cadw mewnfudwyr.
- Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill, partneriaid gofal iechyd a rheoleiddwyr a’r llywodraethau datganoledig.
- Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru memoranda cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau sy’n diffinio sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a’r wybodaeth y byddwn yn ei rhannu.

### Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi’u diweddaru | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Chwarterol |
| Adborth rhanddeiliaid o’n harolwg blynyddol | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Bob blwyddyn |

## Amcan 16: Byddwn yn cyfrannu’n weithredol at waith y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd a’i raglen thematig.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn parhau i fynychu cyfarfodydd rheolaidd o’r Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd, gan gynnwys cyfarfod y Prif Arolygwyr a’r grŵp datblygu.
- Byddwn yn cyfrannu’n weithredol at themâu ar y cyd, gan gynnwys cymryd rôl arweiniol, lle bo hynny’n briodol, yn unol â chynllun busnes y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd ar gyfer 2025–26.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Cyfrannu at waith thematig | Grŵp datblygu y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd | Chwarterol |
| Rhannu gwybodaeth a chytuno ar gydweithio | Prif Arolygwyr y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd | Chwarterol |

## Amcan 17: Byddwn yn chwarae rhan weithredol ym Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn rhannu ein gwybodaeth ac yn ceisio dysgu gan aelodau eraill o Fecanwaith Atal Cenedlaethol y DU er mwyn cefnogi gwaith ehangach i sbarduno gwelliannau mewn amodau a chanlyniadau.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy’n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth | Grŵp llywio Mecanwaith Atal Cenedlaethol<br><br>Cynhadledd Mecanwaith Atal Cenedlaethol | Chwarterol<br><br>Bob blwyddyn |

## Amcan 18: Byddwn yn gweithio’n adeiladol gyda’n hadran noddi, sef y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn cyhoeddi protocol wedi’i ddiweddaru gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy’n adlewyrchu’n fwy cywir ein ffyrdd sefydledig o weithio, sef cydbwyso’r angen i ddarparu sicrwydd ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau’n effeithiol ac yn cydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth

berthnasol, gan gynnal ein hannibyniaeth ar yr un pryd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â'r protocol hwn.

- Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n tîm nawdd a Chanolfan Arbenigedd y Corff Hyd Braich i sicrhau llif priodol o wybodaeth rhwng sefydliadau, gan gynnal ein hannibyniaeth ar yr un pryd.
- Byddwn yn gweithio'n agos gyda Phartneriaid Busnes Cyllid ac Adnoddau Dynol i sicrhau bod ein gwaith yn y meysydd allweddol hyn yn aros yn unol â pholisi ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac yn defnyddio eu harbenigedd lle bo angen.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth | Cyfarfodydd y tîm nawdd | Bob mis |
| | Cyfarfodydd uwch-noddwyr | Bob mis |
| | Cyfarfodydd Sicrwydd Busnes | Dwywaith y flwyddyn |
| | Arfarniad blynyddol y Prif Arolygydd | Unwaith y flwyddyn |

## Amcan 19: Byddwn yn ceisio deall beth yw barn rhanddeiliaid amdanom ni a pharhau i wella ein ffyrdd o weithio.

**Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2025-26**

- Byddwn yn parhau i gynnal arolygon gadael ar ddiwedd pob arolygiad, gan bwyso a mesur yr adborth i barhau i wella ein ffyrdd o weithio.
- Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau a materion seneddol i ddeall barn rhanddeiliaid am ein gwaith a lle gallai fod angen i ni ymateb i unrhyw bryderon neu gamsyniadau.
- Byddwn yn cyhoeddi ein harolwg blynyddol o randdeiliaid, gan ofyn am adborth gan amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid ar ein perfformiad.
- Byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol ar ein rhaglen arolygu arfaethedig ar gyfer 2026–27, gan roi cyfle i randdeiliaid awgrymu newidiadau i'r cydbwysedd hwn neu feysydd gwaith thematig y dylem eu hystyried.

**Y ffordd byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd**

| | Pwy sy'n cymryd rhan | Cerrig milltir/amlder |
|---|---|---|
| Arolwg rhanddeiliaid | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Cyfarfodydd mis Rhagfyr a mis Ionawr |
| Ymgynghoriad ar y rhaglen | Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol | Cyfarfod mis Ionawr |
| Arolygon gadael | Bwrdd Cyflawni | Bob mis |
| Monitro | Timau Polisi a Chyfathrebu | Parhaus |

# Appendix I  Rhestr o amcanion strategol

Amcan 1: Byddwn yn darparu rhaglen o arolygiadau annibynnol sy'n cwmpasu pob maes o'n cyfrifoldeb.

Amcan 2: Byddwn yn datblygu ac yn adrodd ar raglen o arolygiadau thematig sy'n gwella canlyniadau i'r rhai yn y ddalfa.

Amcan 3: Byddwn yn parhau i sbarduno gwelliant yn arweinyddiaeth y sefydliadau rydym yn eu harolygu.

Amcan 4: Byddwn yn cryfhau ein gallu i graffu ar amodau ac ymateb i risg uwch mewn perthynas â chadw mewnfudwyr.

Amcan 5: Byddwn yn parhau i ddiogelu'r rheini yn y ddalfa.

Amcan 6: Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n harbenigedd canolog ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y rhai yn y ddalfa.

Amcan 7: Byddwn yn ymestyn cyrhaeddiad ein hadroddiadau i sbarduno mwy o graffu a newid cadarnhaol.

Amcan 8: Byddwn yn nodi ac yn rhannu arferion cadarnhaol er mwyn helpu i wella canlyniadau.

Amcan 9: Byddwn yn dangos dulliau effeithiol o reoli risg a gwneud penderfyniadau drwy lywodraethu corfforaethol cadarn.

Amcan 10: Byddwn yn dangos rheolaeth ariannol gadarn ac yn darparu gwerth am arian.

Amcan 11: Byddwn yn sicrhau bod gan yr arolygiaeth weithlu sy'n meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd priodol.

Amcan 12: Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Amcan 13: Byddwn yn diogelu ein staff drwy gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith.

Amcan 14: Byddwn yn ymgorffori ein hymrwymiad i driniaeth deg a chynhwysiant ar draws yr Arolygiaeth.

Amcan 15: Byddwn yn cynnal perthynas waith dda gyda swyddogaethau ac atebolrwydd clir gyda'n partneriaid arolygu.

Amcan 16: Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at waith y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd a'i raglen thematig.

Amcan 17: Byddwn yn chwarae rhan weithredol ym Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU.

Amcan 18: Byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'n hadran noddi, sef y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Amcan 19: Byddwn yn ceisio deall beth yw barn rhanddeiliaid amdanom ni a pharhau i wella ein ffyrdd o weithio.